OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 181 (Cy.31) (C.9)

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU
PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

Gorchymyn Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2003

Wedi'i wneud - - 31 Ionawr 2003

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 148(6) o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (**1**) drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi, dehongli a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2003.

(2) Yn y Gorchymyn hwn —

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002;

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru.

Y diwrnod penodedig

2. 1 Chwefror 2003 yw'r diwrnod a benodwyd i adran 16 o'r Ddeddf ddod i rym.

(**1**) 2002 p.38. Rhoddwyd y pwerau i'r Gweinidog priodol. Ystyr Gweinidog priodol yw'r Cynulliad mewn perthynas â Chymru, a'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon (a.144(1) o'r Ddeddf). Ystyr Cynulliad yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru (a. 144(1) o'r Ddeddf).